

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod: 06.11.2018
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol: Y Cyngorwyr, Dylan Jones, Danny Davies, Elfed Davies, Eirion Evans, Pamela Jones, Gethin Edwards, Cyngorydd Sir, Irfon Jones.
Ymddiheuriadau: Derick Lock, Arwel Nicholas

Rhif Agenda	Nodiadau/ Penderfyniadau	I'w weithredu gan
Ymweliad Mel ab Owain	Mel ab Owain yn cychwyn y cyfarfod drwy rhoi disgrifiad o'r gwaith mae Un Llais Cymru yn ei wneud. Yn gryno iawn, dywedwyd fod ULIC yn ceisio cefnogi cyngorau Tref a Chymuned ym mhob ffordd posib, boed y broblem yn ariannol, cyfreithiol neu gyfansoddiadol. Y cyfnod presennol yn heriol i Gyngorau oherwydd datganoli asedau a chyfrifoldebau arall. Cynnigir hyfforddiant ar ystod helaeth o bynciau, i Gyngorwyr a Chlercod. Swyddogaeth arall sydd ganddynt yw, I gynrychioli Cyngorau Tref a Chymuned gerbron y Llywodraeth. Mae Mel hefyd, wrth iddo ymweld a Chyngorau, yn rhannu arferion da a phawb.	
Datgan Buddiannau	Neb	
Cofnodion	Cytunwyd eu bod yn gywir – ED & GE	
Newid Noson Cyfarfod o'r Cyngor	Newid noson Cyfarfod o'r Cyngor – DD o blaid sefydlogrwydd ond ddim yn gwrthwynebu newid y noson. Creda iddo fod yn bwysig, os newid noson, nid newid nôl wedyn. ED yn dweud fyddde unrhyw noson arall yr un mor anghyfleus. DJ yn gofyn a oedd unrhywun yn anghytuno gyda'r cynnig. PJ yn dweud fod gweithgareddau arall ar gael. DD ddim o blaid newid noson ond ddim yn wrthwynebus ychwaith. DJ yn galw am bleidlais: O blaid – AN, DL, GE, PJ Yn erbyn – Neb Ddim yn pleidleisio – ED & DD Cytunwyd newid noson cyfarfod y Cyngor o Nos Fawrth I Nos Fercher gan gychwyn ym Mis Ionawr. Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 02.01.2019	
Materion yn Codi	Dim	
Gohebiaeth	Meddygfa Teifi – PJ yn dweud fod y 400 o gleifion yn cael eu rhannu ymlhith meddygfeydd arall, Furnace House a Chei Newydd. Cyngorydd Emlyn Dole – Arweinydd Cyngor y Sir yn aneglur ynglyn a chwyn y llythyr; ai cwyn yn erbyn y Sir, Cyngorydd Sir neu diffyg pwerau Cyngor y Gymuned. Barn Cyngorwyr Llanpumsaint oedd mai cwyn yn erbyn y Sir yr oedd. IJ yn awgrymu efallai fyddde modd	

	gwario arian y Melinoedd Gwynt ar bethau nad oedd y Sir yn eu gwneud? Trafodwyd gwariant a chyfrifoldebau'r Cyngor Sir.	
Elusennau	Derbyniwyd ceisiadau oddi wrth yr isod a phenderfynnwyd cyfrannu tuag atynt bob un: Mabli Wyn Jones - £200 DD & PJ Bobath - £100 DD & GE Urdd Gobaith Cymru - £100 ED & PJ St John's - £100 EE & DD Llyfrau Llafar - £150 DD & GE	
Cynllunio	Dim	
Materion Ariannol	Cyflog y Clerc; £130.60 GE & EE	
UFA	GE – Dim PJ – Dim IJ – Dim EE – Dim ED – ymyl yr heol rhwng Bancyn Glas a Bwthyn yn erydu. DD – A ydi'r blychau halen wedi cael eu llenwi eto? Pant yn yr heol ar bwys Bont Newydd. DJ – Llenwi'r blychau halen.	
Cyfarfod yn gorffen	9.27	

Cafwyd yn gywir :	Cafwyd yn gywir :
(Cadeirydd)	(Ysgrifennydd)
Dyddiad :	Dyddiad: